**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Mawrth 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhellion y Panel Gweithredol yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad ar Gynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod Tân, sef "Dweud eich Dweud". |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn Rhagfyr 2002 gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen o ddiwygio a moderneiddio ar y fframwaith mae'r gwasanaeth tân yn gweithredu o'i mewn. Elfen allweddol o'r rhaglen honno oedd yr angen i lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg ar gyfer yr awdurdodau tân.

1.2 Cyfarfu aelodau'r Panel Gweithredol ar 23ain Chwefror 2004 i edrych ar y 34 ymateb a dderbyniwyd ar y Cynllun Risg drafft yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 31ain Ionawr 2004.

1.3 Diben y papur hwn yw nodi cynigion y Panel Gweithredol ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Risg drafft wedi iddynt edrych ar yr ymatebiadau ac yn amodol ar dderbyn y cynigion, fabwysiadu'r Cynllun Risg drafft fel cynllun yr Awdurdod.

2. **CYNIGION**

Gosodwyd y cynigion yn eu trefn yn ôl yr wyth maes risg a'r adran "Yr Heriau i Ddod" sydd yn y Cynllun Risg drafft.

2.1 Risg 1 – Marwolaethau oherwydd Tân

Yn ogystal â'r hyn sydd yno, ychwanegu paragraff yn yr adran "Beth wnawn ni am hyn" fel a ganlyn:
***'Mae gan yr Awdurdod Tân swyddogaeth hynod bwysig fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â diogelwch tân. Mae'n cefnogi'n llwyr weithio ar y cyd ac mewn partneriaethau, a bydd yn weithgar wrth hyrwyddo'r ddau ddull er mwyn cyflawni ei nod o ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân yng Ngogledd Cymru."***
Gofynnodd aelodau'r Panel Gweithredol hefyd am roi gwybodaeth am nifer y marwolaethau oherwydd tân a'r amseroedd y galwyd y Gwasanaeth at bob un o'r digwyddiadau hyn, dangosir hyn ar ffurf tabl yn Atodiad 1.

2.2 Risg 2 – Presenoldeb y Gwasanaeth Tân ac Achub

Cymeradwyo fel y drafftiwyd.

2. **CYNIGION** *(parhad)*

2.3 Risg 3 – Larymau Tân Awtomatig

Yn ogystal â'r hyn sydd yno yn yr adran "Beth wnawn ni am hyn", caiff yr hyn a ganlyn ei ychwanegu ar ôl y frawddeg gyntaf.

***Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gan yr Awdurdod fabwysiadu polisi o beidio ag ymateb yn ddiwahân i larymau tân awtomatig. Caiff asesiad trylwyr ei wneud ar bob un galwad.*** Bydd gweddill y paragraff yn aros fel y mae.

Dechrau newydd i'r ail baragraff:

***Wrth geisio cynyddu'r adnoddau fydd ar gael er mwyn ymateb i alwadau go iawn am gymorth, bydd yr Awdurdod yn datblygu pecyn o fesurau wedi eu cynllunio i ostwng nifer y galwadau diangen.*** Yna'r frawddeg gyntaf o'r ail baragraff fel y mae, ac ar ei hôl ***Yn ogystal â rheoli galwadau unigol, gallai'r pecyn hwn o fesurau gynnwys edrych ar faint yr ymateb a roddir i alwadau, ac efallai godi ffi am anfon allan yn ddiangen – opsiwn allai ddod ar gael trwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol.*** Yna fel y mae.

2.4 Risg 4 – Y Safonau Gofal Tân

Cymeradwyo, ond gyda rhagor o bwyslais ar fonitro fydd yn cynnwys adolygiadau perfformiad rheolaidd fel rhan o gyfundrefn rheoli perfformiad y Gwasanaeth ac adroddiadau cyfnodol i'r Panel Gweithredol. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n datblygu safonau newydd sy'n mesur perfformiad ar dderbyn galwadau brys, anfon adnoddau allan, a'r amser rydym yn bresennol. Hefyd, bydd y gwaith a wneir yn genedlaethol i ddatblygu ystod newydd o ddangosyddion perfformiad ac unrhyw ddatblygiadau a ddaw fel rhan o Fframwaith Cenedlaethol Cymru yn dylanwadu ar y dangosyddion perfformiad lleol yma.

2.5 Risg 5 – Patrymau Shifftiau

Mae papur opsiynau ynghlwm (Atodiad 2) yn amlinellu'r goblygiadau ariannol o newid o'r system criw dydd a gynigir yn y Cynllun Risg, a system arall a gyniwyd yn ystod y cyfarfod ar 23ain Chwefror.

2.6 Risg 6 – Cydbwysedd Adnoddau

Cymeradwyo fel y drafftiwyd

2.7 Risg 7 – Tanau Bwriadol

Cymeradwyo fel y drafftiwyd

2.8 Risg 8 – Y Strwythur

Cymeradwyo fel y drafftiwyd

2. **CYNIGION** *(parhad)*

2.9 Yr Heriau i Ddod

I ychwanegu'r adran isod at y tair adran bresennol,

**4) Diogelwch ar y Ffyrdd**
Gan y bydd achub, ac ymateb i ddamweiniau ar y ffyrdd yn dod yn ddyletswydd statudol i awdurdodau tân ac achub, caiff strategaeth diogelwch ar y ffyrdd ei datblygu mewn cynlluniau gweithredu yn y dyfodol fel rhan o broses y Cynllun Risg.

Caiff hyn ei ymgorffori yn y cynllun gweithredu.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau sydd ynghlwm.

3.2 Bod yr aelodau'n ystyried yr hyn mae'r Panel Gweithredol yn cynnig eu cynnwys, ac yn amodol ar welliannau, yn mabwysiadu'r Cynllun Risg drafft fel cynllun yr Awdurdod.

# Marwolaethau oherwydd Tân o Ebrill 2000 hyd at nawr

| Amser yr alwad | Dyddiad | Dalgylch Gorsaf | Rhif y Digwyddiad |
|---|---|---|---|
| 00:50 | 12.05.03 | E02 – Glannau Dyfrdwy | 2560 |
| 01:38 | 01.10.01 | W19 – Pwllheli | 8301 |
| 02:31 | 10.03.03 | E01 – Wrecsam | 17086 |
| 06:13 | 07.04.01 | C15 – Llanelwy | 247 |
| 06:47 | 24.05.01 | W19 – Pwllheli | 2295 |
| 06:47 | 06.07.00 | C05 – Betws y Coed | 3931 |
| 07:09 | 24.02.02 | W14 – Llanberis | 15175 |
| 07:16 | 18.12.00 | E02 – Glannau Dyfrdwy | 11766 |
| 07:56 | 18.03.03 | W07 – Amlwch | 17655 |
| 08:22 | 09.12.02 | E07 – Johnstown | 13120 |
| 08:50 | 06.02.01 | C15 – Llanelwy | 13596 |
| 09:17 | 05.04.01 | C01 – Llandudno | 190 |
| 09:37 | 09.06.03 | E01 – Wrecsam | 3796 |
| 09:41 | 31.10.02 | C03 – Y Rhyl | 11620 |
| 10:22 | 17.07.02 | C13 – Prestatyn | 5687 |
| 11:14 | 30.08.03 | E01 – Wrecsam | 8392 |
| 11:29 | 28.01.02 | W01 – Caernarfon | 13788 |
| 12:58 | 08.11.03 | E04 – Y Waun | 12389 |
| 13:25 | 21.04.03 | E05 – Y Fflint | 1646 |
| 14:20 | 16.04.02 | C01 – Llandudno | 1034 |
| 15:43 | 21.01.01 | C03 – Y Rhyl | 13039 |
| 15:48 | 16.02.04 | C06 – Cerrigydrudion | 16918 |
| 16:19 | 23.10.01 | C02 – Bae Colwyn | 9293 |
| 16:43 | 01.03.02 | E01 – Wrecsam | 15488 |
| 17:39 | 18.02.02 | W03 – Caergybi | 14941 |
| 17:59 | 06.10.01 | E02 – Glannau Dyfrdwy | 8494 |
| 18:42 | 27.06.00 | E08 – Y Wyddgrug | 3551 |
| 18:48 | 21.04.02 | E06 – Treffynnon | 1304 |
| 19:24 | 29.03.02 | C09 – Dinbych | 17034 |
| 20:27 | 03.12.00 | W01 – Caernarfon | 11227 |
| 21:22 | 04.12.01 | W02 – Bangor | 11373 |

**Mae 32 marwolaeth yn y tabl ac maent yn nhrefn amser gan gychwyn am hanner nos.**

## ATODIAD 2

**Papur Opsiynau**

Mae'r tablau isod yn dangos y gwahaniaethau rhwng y patrymau shifftiau sydd yn y Cynllun Risg drafft, a'r 'Cynnig Arall' a wnaed yn y cyfarfod o'r Panel Gweithredol.

## Y Cynnig yn y Cynllun Risg

| 09:00 – 10:00 | 10:00 – 12:00 | 12:00 – 22:00 | 22:00 – 09:00 |
|---|---|---|---|
| | Wrth gefn<br>Llawn Amser i ffwrdd o'r orsaf<br><br>Rhan Amser a Llawn Amser yn cael eu galw i'r orsaf | Prif Ddiwrnod Gwaith<br>Llawn Amser ar ddyletswydd yn yr orsaf<br><br>Rhan Amser yn cael eu galw fel criw i'r 2il Bwmp | Rhan Amser a Llawn Amser i ffwrdd o'r orsaf |

Y rhannau tywyll yw'r adegau pan fydd staff Rhan Amser a Llawn Amser i ffwrdd o'r orsaf ac yn cael eu talu am ddod allan at ddigwyddiadau rhwng 09:00 a 10:00 a rhwng 22:00 a 09:00.

## Y Cynnig Arall

| 09:00 – 19:00 | 19:00 – 21:00 | 21:00 – 22:00 | 22:00 – 09:00 |
|---|---|---|---|
| **Prif Ddiwrnod Gwaith**<br>Llawn Amser ar ddyletswydd yn yr orsaf<br><br>Rhan Amser yn cael eu galw fel criw i'r 2il Bwmp | Wrth gefn<br>Llawn Amser i ffwrdd o'r orsaf<br><br>Rhan Amser a Llawn Amser yn cael eu galw i'r orsaf | | Rhan Amser a Llawn Amser i ffwrdd o'r orsaf |

Y rhannau tywyll yw'r adegau pan fydd staff Rhan Amser a Llawn Amser i ffwrdd o'r orsaf ac yn cael eu talu am ddod allan at ddigwyddiadau rhwng 21:00 a 22:00 a rhwng 22:00 a 09:00.

I'w gwneud yn haws cyfrifo cost y 'Cynnig Arall' yn erbyn y cynnig sydd yn y Cynllun, mae'r costau sy'n berthnasol i'r ddwy system wedi cael eu tynnu allan.

Mae hyn yn golygu bod y cyfnod yn ystod y dydd rhwng12.00 a 19.00 a'r cyfnod yn ystod y nos rhwng 22.00 a 09.00 wedi eu tynnu allan.

Felly, y gymhariaeth yw rhwng y cyfnodau wrth gefn a phan fo'r ddwy system yn gorgyffwrdd.

Mae'r tabl isod yn dangos y pum gorsaf criw dydd, a nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn 2002/03 er mwyn cymharu'r costau.

| Gorsaf | 09:00 – 10:00 | 10:00 – 12:00 | 19:00 – 21:00 | 21:00 – 22:00 |
|---|---|---|---|---|
| C01 Llandudno | 23 | 26 | 100 | 31 |
| C02 Bae Colwyn | 16 | 54 | 89 | 33 |
| W01 Caernarfon | 12 | 38 | 98 | 34 |
| W02 Bangor | 38 | 73 | 123 | 49 |
| W03 Caergybi | 17 | 37 | 69 | 16 |
| **CYFANSWM** | 106 | 228 | 479 | 163 |

Trwy ddefnyddio tabl o'r ddwy system shifft, gellir gwneud cymhariaeth rhwng y goblygiadau ariannol wrth ddefnyddio data am ddigwyddiadau.

Y rhannau tywyll yn y ddau dabl yw'r adegau pan fyddai'r criwiau Llawn Amser a Rhan Amser yn cael eu galw i'w Gorsafoedd i fynd at ddigwyddiad. Yn y cynnig sydd yn y Cynllun Risg, mae hyn yn digwydd rhwng 09:00 a 10:00, sef cyfanswm o 106 o ddigwyddiadau. Yn y 'Cynnig Arall' mae hyn yn digwydd rhwng 21:00 a 22:00, sef cyfanswm o 163 o ddigwyddiadau – sef talu am 57 o ddigwyddiadau yn fwy na'r hyn sydd yn y Cynllun Risg.

Y cyfnod wrth gefn yn y ddwy system shifft yw'r adeg pan fyddai'r criwiau Llawn Amser a Rhan Amser yn cael eu galw i'w Gorsafoedd i fynd at ddigwyddiad, ond dim ond y criwiau Rhan Amser all hawlio taliad gan fod y cyfnod hwn eisoes wedi ei gynnwys yng nghyflog ac amodau'r criwiau Llawn Amser. Yn y cynnig sydd yn y Cynllun Risg, mae hyn yn digwydd rhwng 10:00 a 12:00, sef cyfanswm o 228 o ddigwyddiadau. Yn y 'Cynnig Arall' mae hyn yn digwydd rhwng 19:00 a 21:00, sef cyfanswm o 479 o ddigwyddiadau – sef talu am 251 yn fwy o ddigwyddiadau na'r cynnig sydd yn y Cynllun Risg.

Roedd y Cynllun Risg drafft yn nodi rhyddhau £75,000 o'r newid a gynigir i'r system criw dydd. I gyferbynnu nodi arbedion, diben y papur hwn yw nodi a chymharu costau.

Nid costau newydd yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynnig sydd yn y Cynllun Risg a'r 'Cynnig Arall'. Byddai'r Gwasanaeth yn gweld costau wrth fynd at y digwyddiadau sydd yn y tabl boed yn gweithio o fewn y system bresennol, y cynnig sydd yn y Cynllun Risg, neu'r system yn y 'Cynnig Arall'. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth yn y costau. Y costau o weithredu'r cynnig sydd yn y Cynllun Risg yw £69,495. Y costau o weithredu'r 'Cynnig Arall' yw £87,228, sef £17,773 yn fwy na'r cynnig sydd yn y Cynllun Risg.

Roedd pob cyfarwyddyd a ddaeth gan yr ODPM yn pwysleisio mai prif amcan Cynlluniau Risg oedd gwneud i'r Gwasanaeth ymateb fwy i anghenion lleol a medru cyflwyno diogelwch tân cymunedol yn well. Mae'n bwysig nodi y cymerwyd y brif amcan hon i ystyriaeth, a phan luniwyd y cynnig gwreiddiol yn y Cynllun Risg, cafodd ei ffafrio ar sail effeithlonrwydd mewn dau faes penodol, sef:

- Y budd i ddiogelwch tân cymunedol trwy fedru siarad â'r cyhoedd yn eu cartrefi eu hunain rhwng 5 ac 8 y nos; a
- Lleihau yr adegau troi allan mewn adeg pan fydd y Gwasanaeth brysuraf. Yn hyn o beth, byddai'r 'Cynnig Arall' yn gweld mwy o adegau troi allan, sef at 672 o ddigwyddiadau o'i gymharu â 334 dan y cynnig sydd yn y Cynllun Risg.

Mae'r manteision ariannol a fyddai'n dod oherwydd y cynnig sydd yn y Cynllun Risg yn dod oherwydd y ddau faes yna, nid dyna'r prif reswm dros newid.